| | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 21 Medi 2020 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | Sian Williams, Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Cyfoeth Naturiol Cymru) |
| **Awdur yr Adroddiad** | Nicola Kneale, Cyngor Sir Ddinbych |
| **Teitl** | Adolygiad o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, Chwefror 2020 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Diweddariad blynyddol ar Gofrestr Risg y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1. Mae'r adroddiad hwn yn gofyn i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i adolygu'r risgiau mae'n eu hwynebu.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Mae'r BGC yn ystyried y risgiau, y sgoriau a'r camau lliniaru a gynhwysir yn y Gofrestr Risg lawn (Eitem 7 – Atodiad 1).

3.2. Mae'r BGC yn nodi'r newidiadau a amlygwyd ym mharagraff 4.3 ac yn trafod unrhyw newidiadau pellach neu risgiau newydd a allai fod yn ofynnol.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Caiff Cofrestr Risg y BGC ei datblygu gan y BGC a'r bwrdd sy'n berchen arni. Caiff ei hadolygu'n ffurfiol unwaith y flwyddyn.

4.2. Cyflawnwyd yr adolygiad diwethaf ym mis Medi 2019.

4.3. Yn ystod yr adolygiad diweddaraf hwn mae yna nifer o ddiweddariadau bach wedi bod, dyma grynodeb:

- BGC 1: Y risg fod gan y BGC gyllid, adnoddau a chapasiti annigonol i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Lles. Mae’r sgôr risg cynhenid wedi ei israddio o A2 i B3. Mae’r sgôr risg gweddilliol hefyd wedi ei israddio o D3 i C3.
- BGC 3: Y risg fod y BGC yn methu sicrhau’r effaith mwyaf posibl y gall ei gyflawni drwy ddull cydweithredol. Mae’r sgôr risg gweddilliol wedi ei israddio o B2 i C2.
- Mae un risg newydd wedi ei nodi gan BGC 5: Y risg fod yna donnau pellach o Covid-19 lle byddai’n ofynnol i aelodau o'r BGC ganolbwyntio eu sylw ar ymateb. Mae’r manylion wedi eu cynnwys yn atodiad 1.

- Nid oes unrhyw risgiau wedi’u tynnu.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau?

5.1. Diben Cofrestr Risg y BGC yw amlygu digwyddiadau posibl yn y dyfodol a allai gael effaith niweidiol ar allu’r BGC i gyflawni ei amcanion, gan gynnwys ei flaenoriaethau. Mae’r camau rheoli a gweithredu a amlygir felly’n hanfodol ar gyfer cyflawni’r blaenoriaethau.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae costau datblygu, monitro ac adolygu Cofrestr Risg y BGC yn cael eu cynnwys yn y cyllidebau cyfredol.

## 7. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

7.1. Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â’r adolygiad hwn.